Ysgol Iolo Morganwg — Haf 2018 Summer

CYLCHLYTHYR / NEWSLETTER

CRAFF

Diolch o galon i holl aelodau'r CRAFf am eu gwaith caled a'u hymroddiad tuag at yr Ysgol, ac am y gefnogaeth a ddangoswyd gan rieni'r ysgol tuag at y gweithgareddau. Drwy law eu hymdrechion, mae pob un plentyn yn elwa. Edrychwn ymlaen at gydweithio eto'r flwyddyn nesa wrth ddatblygu 'Darllen' ar draws yr Ysgol.

A huge thanks to all members of CRAFf for their hard work and commitment to the school, and for the support shown by all parents to CRAFf activities throughout the year. Each and every child benefits from their efforts. We look forward to working together to develop 'Reading' across the school in the next academic year.

Mwynhewch y gwyliau a chadwch yn ddiogel! **Stay safe and enjoy the holidays!**

Llais y disgybl! Pupil voice!

CADEIRIO/ CHAIRING OF THE BARD

Cafwyd seremoni hyfryd a llwyddiannus yr wythnos hon, yng nghwmni rhai o rieni Blwyddyn 4 a 6, wrth i Caryl Parry Jones rannu beirniadaethau am waith barddoni disgyblion Blwyddyn 6. Braf oedd clywed darnau o bob un campwaith, a chanmolwyd safon y gwaith. Llongyfarchiadau mawr i'r bardd buddugol, Emilia Campion, a da iawn i Neve Jones (2ail) ac i Lili Hunter (3ydd). Rhaid canmol disgyblion Blwyddyn 4 hefyd am eu proffesiynoldeb wrth arwain y seremoni. Cawn weld yr holl gerddi ar y wefan yn fuan.

We thoroughly enjoyed the magnificent chairing of the Bard ceremony that was held this week, which was also shared by some of our year 4 and 6 parents. Caryl Parry Jones delivered the adjudication as we got to hear parts of the marvelous poems written by our year 6 pupils. Congratulations to Emilia Campion, our 2018 Bard, and well done Neve Jones (2nd) and Lili Hunter (3rd). Year 4 pupils are also highly commended for their professional approach to running the ceremony. All entries will be on the school website shortly.

Diolch. **Thank you.**

Hoffwn ddiolch i Mrs J Lewis am ei harbenigedd a'i chefnogaeth wrth sefydlu RWInc yng nghyfnod allweddol 2 ac am ei gwaith gyda'r disgyblion. Ffarweliwn hefyd gyda Mr Hicks a diolchwn iddo am ei ymroddiad yn ystod ei amser yma yn Iolo Morganwg. Dymunwn bob lwc i'r ddau yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

We would like to thank Mrs J Lewis for her support and expertise in helping to establish RWinc across KS2 and for her work with the pupils. We also say a fond farewell to Mr Hicks and we thank him for his commitment throughout his time here at Ysgol Iolo. We wish both well in their future careers.

HMS / INSET day

Dydd Llun 3/9/18 – Ysgol ar gau i'r disgyblion
Monday 3/9/18 – School closed for pupils

Y GERDD FUDDUGOL THE WINNING POEM

Yn fy ystafell i

Cas pensiliau yw fy ystafell i.
Yn llawn lliwiau digri'n dawnsio drwy'r dydd
A darnau bach o bapur brwnt,
Does dim dianc rhag y shafins pensil
Sy'n llenwi pob twll a chornel.
Mae bywyd yn barti fan hyn
Rhwng y creonau, y dileuwyr di-ri a'r uwch-oleuwyr,
A'u hinc yn addurno'r ffabrig
Yn enfys llachar.
Rwy'n byw mewn gobaith bob dydd.
Os ydw i'n lwcus, efallai bydd Y Llaw yn fy newis i - ie fi!
Fy inc yn sgleinio
ac yn dod â hapusrwydd ansoddeiriau, agoriadau,
berfau a chysyllteiriau i lyfrau gwag.
Yn dod a lliw i bapur gwyn.
Ond mae'r dyddiau hynny'n dod i ben.
Daeth peniau newydd, pert, prydferth.
Dydy pethau ddim yn gweithio fel oedden nhw.
Teimlaf fy inc,
Yn gwasgaru i lawr
Yn araf.
Teimlaf fy nghorff yn araf bach
Yn cwympo i gysgu,
Cwsg di-ddiwedd
Yn y bin ailgylchu.

Gan y Pen Perffaith